

# Gwrthwynebiadau i uffern

*“Nid yw’r Arglwydd yn oedi cyflawni ei addewid; bod yn amyneddgar wrthych y mae, am nad yw’n ewyllysio i neb gael ei ddinistrio, ond i bawb ddod i edifeirwch.” (adn. 9)*

## Beth am ddarllen 2 Pedr 3:1–18 ac yna myfyrio

Beth yw’r prif wrthwynebiad i’r syniad o uffern? Mae llawer gwrthwynebiad. Nid dyma’r lle i’w hystyried i gyd. Ond rwyf am ganolbwyntio ar yr un sydd yn cael ei ailadrodd yn fynych. “Mae uffern yn anghyson â chymeriad Duw.” Efallai eich bod wedi clywed dadleuon tebyg. O bryd i’w gilydd, fe gyflwynir y ddadl fel hyn: “Mae Duw yn rhy dda i anfon pobl i uffern.” Neu: “Mae’r Hollalluog yn Dad sydd yn maddau; felly, onid yw’n rhesymol i feddwl y bydd pawb yn y diwedd yn cael maddeuant?”

Beth am gymryd fersiwn gyntaf y ddadl yma: “Mae Duw yn rhy dda i anfon pobl i uffern.” Onid y gwir yw nad yw Duw yn danfon neb i uffern. Maent yn mynd yno o ganlyniad i’w hewyllys eu hunain. Maent yn gwrthod y cynnig o drugaredd ac o ras sydd yn Iesu Grist. Beth am yr ail ddadl? Onid yw’r ffaith fod Duw yn Dad cariadlon yn golygu y bydd pawb yn y diwedd yn cael maddeuant? Fe seilir y ddadl yma ar gamddealltwriaeth o beth yw maddeuant. Pan fyddwch yn penderfynu i edrych heibio i ryw bechod, yr ydych yn esgusodi’r pechod yna. Rhaid i faddeuant gael ei dderbyn er mwyn i’r maddeuant fod yn gyflawn. Mae person sydd yn gwrthod cydnabod unrhyw euogrwydd hefyd yn gwrthod unrhyw faddeuant. Caniatewch i mi ddyfynnu C. S. Lewis eto: “Mae’r rhai gaiff eu melltithio mewn un ystyr yn wrthryfelwyr llwyddiannus i’r diwedd. Mae drysau uffern yn cael eu cloi o’r tu mewn. Nid nad wyf yn credu y bydd y rhain yn dymuno dod allan o uffern, ond yn sicr nid ydynt yn ewyllysio hynny. Maent yn mwynhau am byth y rhyddid ofnadwy y maent wedi ei fynnu, ac o ganlyniad mae eu caethiwed yn rhywbeth y maent yn ei ddwyn arnynt eu hunain.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 10:24–31; 18:1–9; 23:15

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd geiriau difrifol Iesu Grist i’w ddisgyblion?
2. Beth oedd ei eiriau i’r Phariseaid?

## Gweddi

Arglwydd, rwyf mor ddiolchgar dy fod wedi fy ngalluogi i ildio fy ewyllys i ti, ac i feddiannu yn fy nwylo gwag i dy faddeuant cyfoethog di. Mae hyn wedi setlo fy mherthynas â thi, nid yn unig am nawr, ond am dragwyddoldeb. Diolch O Dad. Amen.